# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd, 23 Ionawr 2027

## Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

## Rhestr testunau cystadlaethau gwaith cartref

Rhaid i geisiadau cystadlaethau gwaith cartref gyrraedd erbyn diwedd dydd Sul 13 Rhagfyr 2026.

Rhaid i chi gyflwyno eich ceisiadau drwy'r porthol ar wefan yr eisteddfod. Mae cyfarwyddiadau manwl ynghylch cofrestru a chyflwyno eich gwaith ar y wefan.

Cewch gystadlu hyd at ddwywaith ym mhob cystadleuaeth, ond ni cheir cyflwyno'r un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth. Rhaid cael ffugenw gwahanol ar gyfer pob ymgais.

Os ydych yn athro sy'n dymuno cyflwyno ceisiadau ar ran eich disgyblion (nifer o geisiadau ar gyfer un neu nifer o gystadlaethau), cysylltwch â ni i drefnu mynediad arbennig i'r porthol, i hwyluso hyn. E-bostiwch cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru.

Beirniaid:

- Tudur Dylan Jones (barddoniaeth a ffotograffiaeth)
- Mari George (rhyddiaith)

Dyma y Rheolau Llawn a'r Porthol Cystadlu

| Rhif | Cystadleuaeth | Testun a nodiadau | Gwobr |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhyddiaith blwyddyn 2 i 4 | Ffrindiau | £5 |
| 2 | Rhyddiaith blwyddyn 5 i 6 | Trysor | £5 |
| 3 | Rhyddiaith blwyddyn 7 i 9 | Taith | £10 |
| 4 | Rhyddiaith blwyddyn 10 i 13 | Gwawr | £10 |
| 5 | Y Fedal Ryddiaith | Llwybr/Llwybrau. Darn o ryddiaith heb fod dros 2,000 o eiriau. Cystadleuaeth agored i bawb. | Medal a £50 |
| 6 | Llên meicro | Cam/Camau. Darn neu gasgliad o lên meicro heb fod yn fwy na 500 gair. | £10 |
| 7 | Adolygiad | Adolygiad o unrhyw gyfrol Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2026, heb fod dros 1,000 o eiriau | £10 |
| 8 | Rhyddiaith y dysgwyr | Crwydro | £10 |
| 9 | Tlws yr Ifanc | Gwaith llenyddol. Cerdd gaeth neu rydd neu ddarn o ryddiaith, ar y testun Cyrraedd. Yn agored i unigolion 25 oed ac iau yn unig. | Tlws a £50 |
| 10 | Barddoniaeth blwyddyn 2 i 4 | Mynd am dro | £5 |
| 11 | Barddoniaeth blwyddyn 5 i 6 | Gwenu | £5 |
| 12 | Barddoniaeth blwyddyn 7 i 9 | Allwedd | £10 |
| 13 | Barddoniaeth blwyddyn 10 i 13 | Gwerthu | £10 |
| 14 | Y Gadair | Cerdd neu ddilyniant o gerddi caeth neu rydd heb fod dros 75 o linellau, ar y testun Casglu/Casgliad. | Cadair a £50 |
| 15 | Triban | Triban yn cynnwys y llinell ‘Pan fyddaf yn dihuno’ | £10 |
| 16 | Englyn | Colli | £10 |
| 17 | Cerdd rydd | Eiliad | £20 |
| 18 | Cerdd ar unrhyw fesur caeth | Cân (heb fod dros 20 llinell) | £20 |
| 19 | Cyfansoddi geiriau emyn | Emyn i’w ganu ar ddechrau’r flwyddyn | £10 |
| 20 | Barddoniaeth y dysgwyr | Cyfoeth | £10 |
| 21 | Ffotograffiaeth cynradd | Symud | £5 |
| 22 | Ffotograffiaeth uwchradd | Symud | £10 |
| 23 | Ffotograffiaeth agored | Symud | £15 |